**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

24 Hydref 2017

Annwyl Carl

Diolch am eich ymateb dyddiedig 14 Medi i'm llythyr yn dilyn ein sesiwn graffu gyffredinol ar 20 Gorffennaf. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried eich ymateb, ac ers hynny mae wedi cymryd **tystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru ar ei Hadroddiad Blynyddol**. Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y pwyntiau a restrir isod.

1. **Hawliau plant**
   Yn eich llythyr dyddiedig 14 Medi, dywedwch nad oes 'dim tystiolaeth' y byddai dyletswydd gyffredinol i CCUHP yn cael effaith gadarnhaol o ran gwell canlyniadau. Wrth gyrraedd ei argymhelliad y dylid cael dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP ar wyneb y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ('Bil ALNET'), ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth ar effaith dulliau darparu gwasanaethau o ran hawliau plant ac ystod o wybodaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid allweddol. Fel enghraifft, rwy'n atodi papur briffio gan UNICEF, a roddwyd i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod Un y Bil ALNET, i gefnogi eu rhaglen ysgolion ar barchu hawliau, sy'n tynnu ar dystiolaeth o'r DU ac yn rhyngwladol ar effaith dulliau hawliau plant tuag at addysg.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad pellach ar:

- a yw eich datganiad nad oes 'dim tystiolaeth' y byddai dyletswydd i roi sylw dyledus cyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau yn berthnasol i ddyletswydd i roi sylw dyledus Llywodraeth Cymru ei hun o dan *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*.
- effaith y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.
- y sail ar gyfer safbwynt polisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd i roi sylw dyledus.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

2. **Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP)**

Dywedwch yn eich llythyr dyddiedig 14 Medi mai pwrpas AEHP yw helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i (i) ystyried effaith cyfreithiau, polisi a phenderfyniadau cyllidebol arfaethedig ar blant a'u hawliau, a (ii) briffio Gweinidogion ar effeithiau yn unol â hynny. Mae Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru yn esbonio sut y bydd Gweinidogion yn cyflawni eu dyletswydd o roi sylw dyledus i'r CCUHP yn rhannol trwy eu hymgysylltiad uniongyrchol â'r broses AEHP. Yn ystod craffu ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant ar 18 Hydref, disgrifiodd ansawdd yr AEHP a wnaed hyd yn hyn fel "amrywiol".

Byddai'r Pwyllgor:

- yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'ch barn ar y dylanwad y mae AEHP yn ei gael o fewn proses gwneud penderfyniadau a datblygu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru.
- yn cymryd diddordeb parhaus a gweithredol mewn AEHP trwy gydol y Cynulliad hwn a bydd yn ceisio deialog ffurfiol gyda chi yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Cydymffurfiaeth o dan *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*, y'i disgwylir ym mis Ionawr 2018

3. **Comisiynydd Plant Cymru**

Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, ailadroddodd y Comisiynydd ei hawydd i fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag egwyddorion Paris. Nododd hefyd ei barn fod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'i rôl yn gymhleth, yn anniben ac wedi dyddio.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech egluro a ydych yn dal yn fodlon bod y ddeddfwriaeth lywodraethu ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yn cydymffurfio ag egwyddorion Paris.

4. **Y DU yn ymadael â'r UE: plant a phobl ifanc**

Yn eich llythyr dyddiedig 14 Medi rydych yn nodi eich bod wedi:

- cytuno ar gyllid i gaffael gwasanaethau sefydliad(au) allanol i gyflwyno cyfres o weithdai ledled Cymru i alluogi plant a phobl ifanc i gael llais a sicrhau bod eu barn ar yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei hystyried, ac i ddatblygu ymgynghoriad ar-lein fydd yn dechrau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- cytuno i sefydlu grŵp ymgynghorol o bobl ifanc a fydd yn sicrhau bod y safbwyntiau a gesglir trwy'r gweithdai a'r ymgynghoriad yn cael eu trosglwyddo i'r Grŵp Ymgynghorol Ewropeaidd ac yn cael eu hystyriaeth o ddifrif gan Lywodraeth Cymru.

Rydych hefyd yn cyfeirio at y gwaith yr ydych wedi'i wneud gyda phlant a phobl ifanc ar Bapur Gwyn 'Sicrhau Dyfodol Cymru' Llywodraeth Cymru.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu:

- cadarnhad ynghylch a yw, fel rhan o'r Papur Gwyn 'Sicrhau Dyfodol Cymru', AEHP (a gyhoeddir fel arfer ochr yn ochr â chynigion deddfwriaethol) wedi ei wneud i ategu dull Llywodraeth Cymru tuag at y broses o adael yr UE (a mwy o wybodaeth amdano os felly)
- diweddariad ar y gweithdai a'r ymgynghoriad ar-lein i gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc ar ymadael â'r UE
- diweddariad ar y cynnydd o ran yr addewid i sefydlu grŵp ymgynghorol o bobl ifanc.

**5. Eiriolaeth**

Yn ei adroddiad ar eiriolaeth, argymhellodd y Pwyllgor y dylid gweithredu'r dull cenedlaethol o eiriolaeth erbyn Mehefin 2017. Yn eich llythyr dyddiedig 14 Medi, rydych chi'n addo rhoi diweddariad ar Eiriolaeth "maes o law".

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cadarnhad ynghylch pa rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei chymryd i fonitro a yw'r awdurdodau wedi gweithredu'r dull yn llawn, yr oedd yn darged ar gyfer Mehefin 2017 yn y cynllun gweithredu yr ydych wedi cyfeirio ato yn dystiolaeth.

Os yn bosibl, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb cyn ein sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft gyda chi ar 8 Tachwedd.

Yn gywir

Lynne Neagle AC
Cadeirydd